COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED RHOSYR A GYNHALWYD YN YR HEN FECWS DWYRAN AM 7.00 O'R GLOCH NOS LUN EBRILL 29ed 2019

AELODAU'N BRESENNOL:

Cadeirydd Tim Owen
Cynghorwyr : Mr Thomas Hughes, Glenys Owen a Mrs Jane Sykes a Gwylim Roberts Cynghorydd Jane Roberts a Cynghorydd Angharad Jones Cynghorydd O.M.Thomas. Cynghorwr Sir Bryan Owen.

1.YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Peter Rogers a Cynghorydd Lowri Owen a David Roberts

2: DATGAN DIDDORDEB : Datgan dim diddordeb

3: COFNODION Y MIS BLAENOROL: Penderfyniad: Cadarnhawyd gan y Cynghorydd Dennis Owen a eilwyd gan y Cynghorydd Jane Roberts Derbyniwyd y rhain ac arwyddwyd fel rhai cywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ed o Fawrth 2019.

4: MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL :

4.**1.** Cadarnhaodd y cyngor bod clawdd Crochan Caffo Llangaffo wedi ei dorri yn ôl ac mae swyddogion wedi bod i'r safle i archwilio'r gwaith. Mae rhai o'r tyllauar y fyrdd oedd yn broblem wedi cael eu hatgyweirio**.**

4.2. Codwyd yr Arwydd o dŷ'r clerc gan y cyngor a bydd yn cael ei roi yn ei le yn Llangaffo yn fuan.

4.3. Mae poblem gyda dŵr llonydd yn Nhre Anna yn Nwyran wedi i sortio**.**

4.4. Rhoddwyd sylw i'r clawdd ger 19/21 yn Nhre Rhosyr a mae wedii torri yn ol.

5: MYNWENTYDD, TORRI GLASWELLT A LLWYBRAU : Canllaw Llwyn Ysgaw Nid iw'r gwaith atgywirio y callaw wedi i wneud : gofyn i'r clerc ysgriffenu unwaith eto.

6: CEISIADAU CYNLLUNIO. Ynys Hafan Niwbwrch Dim Gwrthwynebiad
Estyniad ac addasu Nyth Gog Newborough Dim Gwrthwynebiad

7: PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO'R CYNGOR : Dim iw adrodd

8: ADRODDIADAU CYNGHORWYR : Dim iw adrodd

9: ADRODDIADAU CYNGOR SIR: Rhoddodd y Cynghorydd Bryn Owen y wybodaeth ddiweddaraf i'r cyngor cymuned am y problemau traffig yn Niwbwrch a chafwyd trafodaethau ynglŷn â system unffordd i leddfu'r problemau traffig yn ystod misoedd yr haf. Cytunwyd ar ôl trafod gyda'r cynghorwyr cymuned i wahodd yr holl bartïon dan sylw i gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd i drafod y problemau ac i gyfleu eu cwynion. Cadarnhaodd y Cynghorydd Owen y bydd llinellau melyn dwbl yn cael i gosod y tu allan i stad Pen y Bryn yn Dwyran. Cadarnhaodd Cynghorydd Owen hefyd fod yna bellach pwyllgor gwaith wedi'i ffurfio a bod y gwaith yn mynd ymlaen i ailagor Parc y Plant yn Niwbwrch.

10; GOHEBIAETH : Mawrth / Ebrill 2019 : Gweler y daflen atodedig

11: MATERION ARIANNOL A GWEINYDDU:

11.1: Adroddiad Ariannol Misol: Datganiad Bank Cyflwynwyd ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y cadeirydd.
11.2 Asesiadau Risg Ni chafwyd unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

12 : TALIADAU: Penderfynwyd talu'r canlynol: **£**

Rowena Hire Rhannau	£143.89
Ddraig Goch Tanwydd	£ 47.01

	£ 190.90

Arian a dderbyniwyd: £8,800.00 PRECEPT 1/3
£1,500.00 Rent Tir Tlodion gan CNC
£300.00 Angladd Lindsey Jones

£10,600.00

13. MATERION ERILL:

13.1 Mynegwyd pryder ynghylch yr ysgolion caeedig yn Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo ynghylch y caeau chwarae a'r peth fydd yn digwydd i'r eiddo: penderfynwyd ysgrifennu at y cyngor i holi am hyn.
13.2 Mynegwyd pryder ynghylch cyflwr y ffordd tua Llyn Parc Mawr Niwbwrch: Penderfynwyd adrodd hyn i'r Adran Briffyrdd.
13.3.Mae'r wal y tu allan i Bronydd yn Dwyan wedi cwympo: penderfynwyd adrodd hyn i'r Adran Briffyrdd a holi am y adeilawyr a ailadeiladodd y wal ychydig fisoedd yn ôl.
13.4. Adroddwyd bod problemau gyda charthffosia yn y ffordd y tu allan i Prichard Jones yn Niwbwrch: Penderfynwyd adrodd hyn i'r Adran Briffyrdd.
13.5 Dywedwyd bod y ffosydd o Caeuau Brychion i Fondeg yn Niwbwrch / Llangaffo angen eu clirio.Penderfynwyd : rhoi gwybodaeth ir cyngor am hyn.
13.6 Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at Priffyrdd i gael gwared ar y bloc concrit mawr o'r bloc tiolet yn Niwbwrch er mwyn caniatáu mwy o le parcio

BYDD Y CYFARFOD NESAF CYNGOR CYMUNED RHOSYR 7.00PM AR DDYDD MAWRTH 28 O FAI 2019 YN NEUADD PENTRAF LLANGAFFO